

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 21ain Hydref 2020 gan gychwyn am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

1. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan B. Mellor a T. Thomas.

Hysbysodd y Maer y cyfarfod bod y Cynghorydd McAlpine yn ddiweddar wedi dod yn nain ac fe gyflwynwyd llonyfarchiadau gan bawb a oedd yn bresennol.

2. AIL-BENODI'R MAER A'R DIRPRWY FAER 2020/21

Dywedodd Clerc y Dref bod Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth frys yn galluogi i gynghorau ohirio eu cyfarfodydd blynyddol oherwydd y pandemig coronafeirws.

Roedd y ddeddfwriaeth hefyd yn caniatáu ymestyn deiliadaeth y swyddi hyd nes fis Mai 2021, os dymunwyd gwneud hynny.

Roedd y Cyngor Tref yn flaenorol wedi cytuno bod Maer 2019/20, y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a'r Dirprwy Fear, Mrs D. L. King, yn cael eu hail-benodi i'w swyddi hyd nes Gyfarfod Blynyddol y Cyngor i'w gynnal ym mis Mai 2021, pan obeithiwyd y byddai'r cyfarfod yn gallu cael ei gynnal gyda'r seremoni priodol. Byddai hyn yn caniatáu i'r Cynghorwyr Chard a King gyflawni eu blwyddyn lawn yn y swydd.

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd Mrs E. M. Chard yn cael ei hail-benodi yn ffurfiol fel Caderirydd y Cyngor ac i swydd Maer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020/21 a bod y Cynghorydd Mrs D. L. King yn cael ei hail-benodi yn ffurfiol fel Is-gadeirydd y Cyngor a swydd y Dirprwy Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020/21.

3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cyemradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 16eg Medi 2020 - Rhifau Cofnod 152-163

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cyfarfod Arbennig - 20ain Medi 2020 - Rhifau Cofnod 164-167
y Cyngor

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 30ain Medi 2020 - Rhifau Cofnod 51-53

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac fe **BENDERFYNWYD** cymeradwyo'r penderfyniadau.

4. PENODIADAU BLYNYDDOL AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2020/21

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gadarnhau'n ffurfiol y penderfyniadau a gymerwyd yng Nghyfarfod ffurfiol y Cyngor a gynhaliwyd ar 4ydd Mawrth 2020 yn ymwneud â:

- 4.1 Penodi Pwyllgorau / Is-bwyllgorau / Llywodraethwyr Ysgolion (atodlen wedi ei dosbarthu gyda'r rhaglen)

Dywedodd Clerc y Dref bod y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James wedi ei gadael allan o aelodaeth y Pwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol mewn camgymeriad ac y byddai'n cael ei hychwanegu.

- 4.2 Etholiad Cadeorydd ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau fel a ganlyn:

Pwyllgor	Cadeirydd	Is-gadeirydd
Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol	Y Cyngh. A. J. Rutherford	Y Cyngh. B. Mellor
Cynllunio	Y Cyngh. Mrs W. M. Mullen-James	Y Cyngh. Ms J. L. McAlpine
Cynllunio Strategol a Gweithredol	Y Cyngh. A. J. Rutherford	Y Cyngh. Mrs W. M. Mullen-James

- 4.3 Penodi Cynrychiolwyr ar Gyrrff Allanol / Partneriaethau (atodlen wedi ei dosbarthu gyda'r rhaglen)

- 4.4 Dynodi Dyletswyddau Cymeradwyedig fel a ganlyn:

Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru
Sir Ddinbych Gynaliadwy
Digwyddiadau hyfforddi ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau
Grŵp Cyfeirio Prosiect Gogledd Sir Ddinbych Prifysgol Betsi Cadwaladr

- 4.5 Atodlen o Gyfarfodydd (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen)

- 4.6 Llofnodwyr ar gyfer cyfrif cyfredol a chyfrifon buddsoddi'r cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2020/21, fel a ganlyn:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

Maer a Dirprwy Faer fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor

Cadeirydd ac Is-gadeorydd y Pwyllgor Cynllunio

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol

Ynghyd ag un o'r swyddogion canlynol:

Clerc y Dref
Dirprwy Glerc
Swyddog Cyllid

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cyfan uchod.

PENDERFYNWYD YMHELLACH bod Clerc y Dref yn cysylltu â Grŵp Cyfeirio Prosiect Gogledd Sir Ddinbych Prifysgol Betsi Cadwaladr i ofyn iddo gysylltu'n well gyda'r Cyngor Tref, h.y. anfon rhaglenni at y cynrychiolwyr ar gyfer pob cyfarfod yn y dyfodol ac i gysylltu â Grŵp Rhanddeiliaid Arolygu Gwasanaethau Cyngor Sir Ddinbych (Hafan Deg), i ofyn os oeddynt yn parhau i gyfarfod ac os oeddynt, i sicrhau bod cynrychiolwyr y Cyngor Tref yn derbyn holl raglenni yn y dyfodol.

5. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) MEDI 2020**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed ac incwm a dderbyniwyd.

Medi 2020

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1035	HSBC	6.50	Taliadau banc 17eg Gorfennaf i 16eg Awst
1040	BT	128.16	Gwasanaethau rhynggrwyd
1036	Gunsmoke Communications	1,120.00	Ffi rheoli ar gyfer Awst 2020
985	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	916.67	Swyddog Apeliadau 20/21 Taliad 6 o 12
984	Cyngor Sir Ddinbych	736.00	Adrethi Annomestig 20/21 ar gyfer swyddfa Ffordd Wellington - taliad 6 o 10
1037	CThem	2,702.79	Didyniadau PAYE ar gyfer Awst 2020
1038	Cronfa Bensiwn Clwyd	4,224.77	Didyniadau pensiwn ac ariannu diffyg ar gyfer Awst 2020
1039	Staff Cyngor Tref y Rhyl	7,176.08	Cyflogau staff Medi 2020
1042	Cyngor Sir Ddinbych	32,622.00	Benthyciad SC2 20/21 – taliad 2 o 3
1041	BT	182.10	Rhentu llinell
1044	Cymdeithas Gymunedol y Rhyl	5,250.00	Ffioedd Rheoli TNCC 20/21 Ch1 a Ch2
Cyfanwm taliadau Atodlen A		£55,065.07	

Incwm – Incwm a dderbyniwyd ym mis Medi 2020

Gan:	Manylion:	Dyddiad:	Swm £
Santander	Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod	02/09/2020	23.57
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod	03/09/2020	0.46
HSBC	Llog ar Gyfrif Money Market	04/09/2020	3.58
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 6 diwrnod	11/09/2020	0.46
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod	18/09/2020	0.46
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod	25/09/2020	0.67
Cyfanswm Incwm a dderbyniwyd			29.20

PENDERFYNWYD derbyn pob un o'r adroddiadau.

6. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

Taliadau Atodiad B i'w cymeradwyo (Medi 2020)

Cyflenwr	Manylion	Rhif Taleb	Swm £
Conrad Office & Art	Papurach	1043	37.97
Cyfanswm Atodlen B			£37.97

7. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU O EBRILL - MEDI 2020

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn nodi'r swm bychan o enillion buddsoddi ar gyfer y cyfnod uchod.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

8. EITEM GAN AELOD: ARGYFWNG HINSAWDD

Gofynnodd y Cynghorydd K. Jones am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref ddatgan 'argyfwng hinsawdd' yn ffurfiol.

PENDERFYNWYD cefnogi'r datganiad a bod y Cynghorydd Jones yn recordio fideo byr gyda chymorth Gunsmoke Communications i'w lanlwytho i wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor Tref.

9. EITEM GAN AELOD: TELEDU CYLCH CYFYNG YN Y GERDDI BOTANEGOL

Gofynnodd y Cynghorydd P. Prendergast am gefnogaeth yr aelodau i gael dau gamera TCC newydd yn y Gerddi Botanegol i'whychwanegu i gamerâu'r Cyngor Tref dan y cynllun Partneriaeth TCC, heb gost i'r Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD cefnogi'r ychwanegiadau, gyda'r Cynghorydd Prendergast yn cael cais i hysbysu'r Gerddi Botanegol.

10. **SUL Y COFFA 2020**

Adroddodd Clerc y Dref, yn unol â'r holl gyngor a chanllawiau perthnasol ar Covid, a chyda thristwch mawr, bod gwasanaeth eleni yn llawer llai gydag ymgasgliad syml o 30 o gynrychiolwyr/unigolion allweddol yn y Gerddi Coffa yn y Rhyl, a bod hyn ond yn cael ei ganiatau oherwydd cynllun ffisegol y Gerddi Coffa, gan eu bod yn lle caeedig. Roedd pob tref arall ledled Gogledd Cymru wedi gorfod canslo'r gwasanaethau a gynlluniwyd.

Byddai'r Maer yn un o'r cynrychiolwyr allweddol a oedd yn mynychu.

PENDERFYNWYD bod y cyfyngiadau cenedlaethol a lleol yn cael eu cyfleu yn glir gan y Cyngor Tref ar ei wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

11. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

12. **ARDAL GWELLA BUSNES Y RHYL (BID)**

Esboniodd Clerc y Dref bod y BID wedi tynnu'r eitem yn ôl.

13. **SEFYDLIAD: GWEITHIO O GARTREF**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad cyfrinachol Dirprwy Glerc (a ddosbarthwyd ar wahan i'r rhaglen) yn esbonio'r problemau a oedd yn cael eu profi gan staff yn defnyddio eu hoffer personol a heb y feddalwedd angenrheidiol i gyrchu ffeiliau o bell ar yriannau ar weinydd y Cyngor Tref, tra'n cadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar weithio o gartref yn ystod y pandemig Covid.

Gofynnodd Clerc y Dref am gymeradwyaeth yr aelodau i brynu pedwar gliniadur wedi eu galluogi gyda meddalwedd 'GoToMyPC' a Microsoft Office ar gyfer pob aelod staff hyd at £3,000 mewn cyfanswm gwariant.

Awgrymodd aelod y dylid ystyried prynu sgriniau a setiau pen ychwanegol i bob aelod staff, a fyddai'n eu cynorthwyo ymhellach gyda'u gwaith.

Cytunodd yr aelodau bod yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau bod gan staff yr offer priodol i'w cefnogi ac i hybu eu lles yn hollbwysig.

PENDERFYNWYD:

- (i) Cymeradwyo prynu gliniaduron, sgriniau a setiau pen.

- (ii) Awdurdodi Clerc y Dref i brynu unrhyw offer cysylltiedig ychwanegol fel ffonau symudol gwaith
- (iii) 'Negeseuon allan o'r swyddfa' i'w defnyddio gan aelodau staff er mwyn pennu ffiniau gwaith clir.
- (iv) Bod Clerc y Dref yn galw cyfarfod brys o'r Pwyllgor Staffio i ystyried holl feysydd risg yn ystod y pandemig i sicrhau diogelwch y staff.

14. SEFYDLIAD: GWEITHREDU DYFARNIAD CYFLOG COST BYW

Dywedodd Clerc y Dref, ar ôl ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, bod dyfarniad cyflog cynnydd cost byw y Cyd-gyngor Cenedlaethol wedi ei weithredu ar gyfer staff o'r 1af Ebrill 2020.

PENDERFYNWYD cydnabod gweithrediad hyn.

15. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:

Dyddiad: